


# Adroddiad:
# Y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol

# Adroddiad Blynyddol 2017-2018

## Mai 2017

CARDIFF
CAERDYDD

**Dinas a Sir Caerdydd**

# AELODAETH
# Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL



Y Cynghorydd Ramesh Patel (Cadeirydd)



Y Cynghorydd Philippa Hill - John



Y Cynghorydd Owen Jones



Y Cynghorydd John Lancaster



Y Cynghorydd Chris Lay



Y Cynghorydd Norma Mackie



Y Cynghorydd Oliver Owen



Y Cynghorydd Peter Wong



Y Cynghorydd Ashley Wood

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Bu 2017/18 yn flwyddyn brysur a diddorol i Bwyllgor Craffu Amgylcheddol Caerdydd.  Dechreuom y flwyddyn gyda gweinyddiaeth newydd, wyth cynghorydd newydd sbon, un hen law a’r dasg o graffu blaenoriaethau amgylcheddol Caerdydd. Yn y bôn, roedd yn her anodd.

Dechreuodd y Pwyllgor ar ei waith fis Gorffennaf diwethaf trwy ddatblygu rhaglen waith a gefnogwyd gan gyfraniadau gan y Cabinet a gwasanaethau. Er mwyn cefnogi’r ymarfer hwn, cynhaliom gyfnod sefydlu craffu, gan ddarparu digon o wybodaeth gefndir i Aelodau newydd a threfnu cyfres o ymweliadau â chyfleusterau gan gynnwys Lamby Way, Cyfleuster Treulio Anaerobig Keld a Llosgydd Viridor. Helpodd yr holl waith hwn yr Aelodau newydd i gael gwybodaeth sylfaenol am y meysydd sy’n rhan o waith y Pwyllgor.

Canolbwyntiodd y craffu cychwynnol ar bynciau’n seiliedig ar themâu yn lle edrych ar benderfyniadau polisi a monitro perfformiad, er enghraifft, ym mis Medi a mis Hydref buom yn craffu ar faterion cyhoeddus pwysig megis ailgylchu, glanhau’r strydoedd, tacsis a hylendid bwyd. Rwy’n credu bod yr ymagwedd hon wedi'n galluogi i ganolbwyntio ar bynciau sy’n berthnasol i’r cyhoedd a darparodd wybodaeth hanfodol i Aelodau newydd ar wasanaethau rheng flaen allweddol.

Wrth i’r flwyddyn fynd yn ei blaen, gwnaethom ehangu’r ystod o waith yr ymgymerwyd ag ef i gynnwys craffu cyn penderfyniad, datblygu polisïau a rheoli perfformiad ystod o bynciau. Roedd hyn yn cynnwys 12 cyfarfod pwyllgor cyhoeddus; craffu ar 36 o eitemau unigol; gwahodd 55 o dystion i’r Pwyllgor a chroesawu 38 o dystion allanol i gymryd rhan mewn gwahanol ddigwyddiadau caffael. Yn ogystal â hyn buom yn rhagweithiol o ran ein hangen i wella ymgysylltiad y cyhoedd â chraffu trwy ddarparu briffiau i’r cyfryngau yn rheolaidd a gwe-ddarlledu ein holl gyfarfodydd cyhoeddus – a welwyd 476 o weithiau yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn defnyddiom lythyrau ein Pwyllgor i godi nifer o faterion pwysig, er enghraifft gwnaethom annog datblygu cynlluniau gweithredu yn y ward er mwyn rheoli glanhau'r strydoedd; gwnaethom herio’r cyfraddau salwch uchel yn gyson ar draws ystod o wasanaethau rheng flaen y Cyngor; gwnaethom argymell cynnal digwyddiadau hylendid bwyd a dargedir er mwyn cefnogi sefydliadau arlwyo bwyd sy’n anos eu cyrraedd; gwnaethom fynegi pryder oherwydd pa mor aml y bydd tacsis yn blocio lonydd bysiau a gofynnom am adolygiad o ddarpariaeth safleoedd tacsis yn y ddinas; gwnaethom fynegi pryder oherwydd y diffyg manylion ynglŷn ag arbedion digideiddio yn y gyllideb ymgynghori; ac yn ystod craffu’r gyllideb, amlygom y costau benthyca cynyddol sydd eu hangen er mwyn cefnogi Rhaglen Prifddinas y Cyngor.

Y darn o waith mwyaf sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd yr ymarfer gorchwyl a gorffen i ‘Gwella Ansawdd Awyr Caerdydd’. Ystyriodd y darn hwn o waith sefyllfa ansawdd yr aer ar hyn o bryd; datblygu Strategaeth Awyr Glân Caerdydd; safbwynt Llywodraeth Cymru o ran ansawdd yr aer; trafnidiaeth, ystod o ffynonellau llygredd eraill; cynllunio a datblygu; tanwydd cynaliadwy a pharthau aer glân.

Roedd cyflawni ymarfer gorchwyl a gorffen ‘Gwella Ansawdd Aer Caerdydd’ yn golygu cynnal naw cyfarfod grŵp gorchwyl; 17 o sesiynau tystion ar wahân; siarad â 38 o dystion ar wahân; adroddiadau Ymchwil Craffu ar arfer gorau o ran ‘Parthau Aer Glân’ ac adolygiad allyriadau fflyd sector cyhoeddus Caerdydd; a defnyddio’r ardaloedd i strwythuro Strategaeth Aer Glân Caerdydd (er enghraifft, Trafnidiaeth, Cynllunio, Tanwydd Cynaliadwy).

Roedd argymhellion allweddol a wnaed yn adroddiad Gwella Ansawdd Aer Caerdydd yn cynnwys rhoi iechyd cyhoeddus wrth galon Strategaeth Aer Glân Caerdydd; creu parth allyriadau isel yn Heol Y Porth trwy ganolbwyntio ar leihau allyriadau nitrogen deuocsid o fysiau diesel; rhoi pwysau ar gyfer seilwaith tanwydd mwy cynaliadwy er mwyn i Gaerdydd gefnogi'r twf o ran defnyddio cerbydau allyriadau isel; mwy o gynllunio rhanbarthol gyda sefydliadau awdurdodau lleol cyfagos er mwyn helpu i leihau allyriadau a achosir gan deithio cymudwyr; cyflymu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a

theithio llesol, er enghraifft, rhagor o lonydd bysiau a beiciau; defnyddio mentrau tymor byr o fewn rheolaeth y Cyngor er mwyn gyrru newid moddol, er enghraifft parthau 20mya a chynlluniau parcio i breswylwyr ac i'r Cyngor arwain trwy enghraifft, er enghraifft, trwy droi fflyd y Cyngor i gerbydau allyriadau isel ac adeiladu i mewn defnydd tanwydd allyriadau isel i broses gaffael y Cyngor. Fel Pwyllgor, rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn helpu i roi rhywfaint o gyfeiriad i'r Cyngor ar sut i ymdrin â'n heriau o ran ansawdd yr aer.

I orffen fy rhagair, hoffwn ddiolch i bob un o Aelodau'r Pwyllgor, y Cabinet, tystion allanol a swyddogion sydd wedi cefnogi ein gwaith.  Yn benodol, bu'n pleser gweithio gyda grŵp rhagorol o gynghorwyr newydd sydd wedi, yn ddieithriad, wedi mynd ati i ymgysylltu â'u rolau newydd ym mhob cyfarfod. Edrychaf ymlaen at eich cymorth parhaus dros y flwyddyn nesaf.



**Y Cynghorydd Ramesh Patel**
**Cadeirydd - Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd Caerdydd**

# CYFLWYNIAD

Mae’r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o asesu perfformiad gwasanaethau a llywio gwaith datblygu polisi mewn ystod o wasanaethau’r Cyngor, gan gynnwys pob agwedd ar drafnidiaeth, cynaliadwyedd a gwastraff.

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno prif weithgareddau’r Pwyllgor yn ystod 2017/18. Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Mai 2018 craffodd y Pwyllgor ar y pynciau canlynol:

- **Gwybodaeth Briffio –** Pan fo’r Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth am destun penodol a ddaw â goblygiadau amgylcheddol i’r Cyngor a’r ddinas. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2017/18:
    - Rheoli Glanweithdra’r Stryd a Golygfa Gyfan y Stryd yng Nghaerdydd
    - Rheoli Ailgylchu yng Nghaerdydd
    - Grangetown Werddach – Diweddariad i Aelodau
    - Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Perygl o Lifogydd yng Nghaerdydd
    - Cynllun Llifogydd Y Rhath

- **Cyfarfodydd Galw i Mewn –** Pan fydd y Pwyllgor yn ystyried cais a wnaed gan Aelod nad yw’n Weithredol i adolygu penderfyniad Gweithredol diweddar ar bwnc penodol sy'n cael goblygiadau amgylcheddol i'r Cyngor a'r Ddinas Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2017/18:
    - Ariannu’r Gyfnewidfa Drafnidiaeth Fysus newydd

- **Ymholiadau –** Pan oedd y Pwyllgor wedi ymchwilio i bwnc dros gyfnod o amser ac hynny wedi arwain at gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cabinet. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2017/18:

- Ymateb y Cabinet i Reoli Arian Adran 106 ar gyfer Datblygu Projectau Cymunedol;
- Gwella Ansawdd Aer Caerdydd
- Rheoli Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd
- Ystyried Adroddiad Drafft y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol sydd â’r teitl ‘Gwella Ansawdd Aer Caerdydd – Ymarfer Gorchwyl a Gorffen'

- **Monitro Perfformiad –** Pan fo’r Pwyllgor wedi monitro perfformiad y Cyngor. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2015/16:

  - Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau’r Ddinas – Adroddiadau Perfformiad Chwarter 1 a 2 2017/18
  - Gwasanaethau Masnachol a Chydweithiol – Adroddiadau Perfformiad Chwarter 1 a 2 2017/18

- **Adolygiad Polisi –** Pan fydd y Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi’r Cyngor, er enghraifft trwy ystyried dogfennau polisi drafft a/neu os yw’r Pwyllgor wedi ystyried gweithredu’r polisi. Bydd yn ystyried a yw hyn wedi digwydd yn brydlon a beth fydd effaith y polisi, a bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i’r Cabinet gael barn Aelodau’r Pwyllgor Craffu ynghylch a oes angen gwneud newidiadau ai peidio. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2017/18:

  - Projectau Digideiddio Gweithrediadau’r Ddinas
  - Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu - 2018 tan 2021
  - Rheoli Hylendid Bwyd yng Nghaerdydd
  - Gwasanaethau Tacsis Caerdydd

- **Craffu Cyn Penderfynu –** Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor werthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn iddynt fynd at Gabinet y Cyngor. Mae hyn yn rhoi cyfle i’r Cabinet wybod barn Aelodau Craffu cyn iddynt wneud penderfyniad.  Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2015/16:

  - Adroddiad Monitro Blynyddol Cyntaf Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
  - Cynigion Cyllidebol Drafft  2018-19 – Trosolwg Corfforaethol

- Cynllun Corfforaethol Drafft 2018 tan 2021 a Chynigion Cyllideb Drafft2018/19 – Cynllunio Strategol a Phortffolio Trafnidiaeth
- Cynllun Corfforaethol 2018 tan 2021 a Chynigion Cyllideb Ddrafft 2018/2019 – Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu ac Amgylchedd
- Rhaglen Reoli Risgiau Arfordirol
- Gofod Claddu Newydd
- Craffu Cyn Penderfynu: Ansawdd Awyr – Cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru
- Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd
- Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu - 2018 tan 2021

Dros y flwyddyn, bu i'r Pwyllgor Craffu gynnal 11 cyfarfod pwyllgor ac ysgrifennu 13 llythyr i'r Cabinet, at swyddogion a phartneriaid allanol er mwyn rhannu eu sylwadau/argymhellion a phryderon wedi craffu ar eitemau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Bu Aelodau mewn nifer o ddigwyddiadau craffu eraill, gan gynnwys cyfarfodydd rhaglennu gwaith, cyfarfodydd cyn y Pwyllgor a chyfarfodydd grwpiau gorchwyl a gorffen.

# GWYBODAETH BRIFFIO

## Rheoli Glanweithdra’r Stryd a Golygfa Gyfan y Stryd yng Nghaerdydd (5 Medi 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 5 Medi 2017 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem â’r teitl ‘Rheoli Glanweithdra'r Stryd a Golygfa Gyfan y Stryd yng Nghaerdydd’. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r  Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a daeth swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau’r Ddinas i’w gynorthwyo. Diben yr adroddiad oedd:

- Rhoi briff i Aelodau ar sut mae'r Cyngor yn ymdrin â sbwriel, glanhau'r strydoedd a golygfa gyfan y stryd yng Nghaerdydd.  Yn benodol ystyriodd yr eitem y gwahanol gategorïau o sbwriel; yr adnoddau sydd ar gael i fynd i’r afael â sbwriel; yr heriau o reoli sbwriel yng Nghaerdydd, ymgyrchoedd rheoli sbwriel a chanlyniadau diweddar gan y System Archwilio a Rheoli Amgylcheddol Leol (LEAMS).

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Cynlluniau Gweithredu mewn Wardiau –** cytunodd yr holl Aelodau fod creu’r cynlluniau gweithredu yn y wardiau er mwyn helpu glanweithdra a golygfa’r stryd yn syniad da; roedd nifer o’r aelodau newydd eu Hethol braidd yn bryderus o ran pam nad oedd yr ymagwedd hon yn bodoli eisoes. Gwnaethant gytuno bod rhoi’r cynlluniau newydd ar brawf mewn ychydig o wardiau yn syniad cadarnhaol ac y dylai’r sampl prawf gynnwys wardiau sydd â nodweddion gwahanol.

- **Gorfodi Gwastraff – Cyfrifoldeb Landlordiaid v Tenantiaid –** Gofynnodd yr aelodau i’r Aelod Cabinet gael gwybod rhagor am y llwyddiant yr oedd

awdurdodau lleol eraill wedi'i gael wrth ymdrin â materion gorfodi gwastraff mewn eiddo rhent trwy gynnwys landlordiaid mor gynnar â phosibl.

- **Cathays –** roedd aelodau'n bryderus bod dros 45% o'r dirwyon a gyflwynwyd yn y ward honno a ymddangosai'n anghymesur o uchel wrth ei chymharu â'r holl wardiau eraill. Gofynnodd Aelod a gafodd gormod o orfodi gwastraff ei wneud yng Nghathays, rhywbeth sy'n gwylltio'r preswylwyr parhaol ac awgrymodd fod gofyn am adolygiad o'r ymagwedd gorfodi gwastraff bresennol ac y dylai hyn gynnwys ymgynghoriad manwl gyda phreswylwyr lleol parhaol.

- **Tipio Anghyfreithlon –** Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod tipio anghyfreithlon wedi cynyddu gan 28% rhwng 2015/16 a 2016/17.Gwnaethant ofyn am eglurder ar y diffiniad o dipio anghyfreithlon y mae'r Cyngor yn gweithio gydag e ar hyn o bryd; crynodeb o'r ffyrdd y caiff digwyddiadau eu hadrodd a'u logio ar hyn o bryd a dadansoddiad o'r digwyddiadau tipio anghyfreithlon fesul ward ar gyfer 2015/16, 2016/17 a 2017/18 hyd heddiw.

- **Cyfraddau Salwch –** Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd monitro lefelau salwch ac maent wedi gofyn am ddadansoddiad o gyfraddau salwch Gweithrediadau'r Ddinas ar gyfer 2016/17 a 2017/18.

- **Perfformiad LEAMS –** Gofynnodd Aelodau am esboniad o ran pam gostyngodd perfformiad LEAMS yn sydyn yn ystod y cyfnod Medi 2016 tan fis Mawrth 2017 ac wedyn gwella'n gyflym yn y cyfnod o fis Mawrth 2017 hyd at fis Mai 2017.

## Grangetown Werddach – Diweddariad Aelodau (15 Mai 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 15 Mai 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Grangetown Werddach – Diweddariad Aelodau'. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a daeth swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i'w gynorthwyo. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad gwybodaeth i'r Aelodau ar y project Grangetown Werddach; i asesu cynnydd a gyflawnwyd hyd yn hyn ar y cynllun; ystyried gwersi a ddysgwyd o'r cynllun ac adnabod cyfleoedd posibl yn y dyfodol sy'n codi i Gaerdydd o'r cynllun.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gofynnodd aelodau am gost cyflawni project Grangetown Werddach. Amlygwyd bod gwerth y contract wedi'i ddarparu i'r Pwyllgor (gwerth o £1,785,853.55); fodd bynnag ni chafodd gwerth terfynol ar gyfer cau project ei gyfrifo eto. Cytunodd swyddog i ddarparu copi o'r adrodd cyllid alldro i'r Pwyllgor pan fyddai ar gael.

- Yn y cyfarfod, esboniwyd y byddai adborth gan breswylwyr lleol yn cael ei gynnwys fel rhan o gam gwersi a ddysgwyd y project. Byddai hyn yn digwydd ar ôl cwblhau'r project ac yn darparu gwybodaeth werthfawr i'r Cyngor a'i bartneriaid ar sut i wella cyflawni unrhyw projectau tebyg yn y dyfodol. Teimlai aelodau fod hyn yn syniad da a gofynnwyd am esboniad manwl o sut caiff adborth y preswylwyr lleol ei gasglu, ei storio a'i adrodd.

- Gofynnodd y Pwyllgor i gopi o'r 'rhestr rhwystrau' i sefydlu maint yr addasiadau terfynol sydd angen mynd i'r afael â nhw

## Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Perygl o Lifogydd yng Nghaerdydd (5 Rhagfyr 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2017 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem â'r teitl 'Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghaerdydd. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a daeth swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas i'w gynorthwyo. Yn ogystal â hyn, gwahoddwyd cynrychiolwyr o Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gymryd rhan yn y cyfarfod i esbonio'r rôl y mae eu sefydliadau yn ei chwarae mewn rheoli perygl o lifogydd. Diben yr adroddiad oedd rhoi cyfle i Aelodau adolygu rolau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'i bartneriaid statudol wrth ymdrin â pherygl llifogydd yng Nghaerdydd. Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Yn ystod y cyfarfod gofynnwyd i swyddog o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas a ddyrannodd y Cyngor ddigon o gyllid tuag at ddraenio a gweithgarwch rheoli llifogydd. Yn gyffredinol, teimlai y cafodd arian digonol ei wario yn y maes hwn, fodd bynnag, roedd angen i'r Cyngor recriwtio swyddog Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) newydd i ymdrin ag ystod o gyfrifoldebau statudol newydd a roddir ar y Cyngor. Awgrymodd y Pwyllgor, o ystyried natur statudol a phwysigrwydd y rôl, y dylid sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer recriwtio i'r swydd.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod yr Aelod Cabinet yn cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio posibilrwydd sefydlu grŵp(iau) llifogydd mewn rhai o ardaloedd perygl llifogydd uchaf Caerdydd.

## Cynllun Llifogydd Y Rhath (5 Rhagfyr 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 15 Mai 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Cynllun Llifogydd Y Rhath'. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru ac aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan yn y cyfarfod i drafod rhinweddau parhau gyda datblygu Cynllun Llifogydd Y Rhath. Diben yr eitem oedd rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu cynnydd datblygu a gweithredu Cynllun Llifogydd Y Rhath. Yn dilyn trafodaethau, cwestiynau a sylwadau, anfonodd Pwyllgor lythyr i'r swyddog arweiniol o Cyfoeth Naturiol Cymru a gafodd ei gopïo i mewn i holl aelodau'r cyhoedd a gymerodd ran yn y cyfarfod. Gwnaeth y llythyr y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Pwyllgor yr ystod o weithgarwch ymgynghori a gyflawnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod datblygu'r cynllun.

- Esboniwyd yn ystod yr eitem y byddai'r gwaith ar Nant Lleucu mewn gwirionedd yn lleihau arwynebedd tir sych cyffredinol y parciau o fewn cwmpas y cynllun. Cydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru fod hyn yn wir, fodd bynnag, ni allent feintioli'r union arwynebedd a gâi ei golli. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder o faint o arwynebedd tir sych mewn gwirionedd a gâi ei golli.

- Yn ystod y cyfarfod cyfeiriodd Dr Johansson at nifer o ddewisiadau amgen posibl ar gyfer helpu rheoli materion perygl llifogydd ar hyd Nant Lleucu. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrhad y cafodd y dewisiadau amgen hyn eu hystyried a'u harfarnu fel rhan o ddatblygiad cynllun.

- Nododd y Pwyllgor fod y cynnig cyffredinol yn cynnwys dileu 140 o goed ac y byddai 122 o goed newydd yn cymryd eu lle. Cafodd y broses o benderfynu pa fathau o goed i'w defnyddio ei chefnogi gan astudiaeth goedol a gafodd ei hariannu gan y cynllun. Câi y coed a gâi eu torri eu

hamnewid am enghreifftiau priodol; byddai rhai o’r rhain yn aeddfed a thua phedwar neu bum metr o ran taldra.  Byddai colled cyffredinol o goed aeddfed yn 18. Nododd y Pwyllgor y byddai 200 o lasbrennau ychwanegol a blannir gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn safle arall a fyddai mewn amser yn fwy na nifer y coed a gollwyd.

# CYFARFODYDD GALW I MEWN

## Penderfyniad Cabinet Galw i Mewn CAB/17/11 – Ariannu'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth Bysys Newydd (13 Medi 2017)

Mae aelodau'n cydnabod pwysigrwydd rhoi cyfnewidfa drafnidiaeth i fysiau o safon ar waith cyn gynted â phosibl i drigolion, cymudwyr, ymwelwyr, cyflogwyr a busnesau. Sicrhawyd bod amser pwyllgor ar gael i ymgymryd â craffu rheolaidd cynigion oherwydd bod y rhain wedi dod i'r amlwg drwy gydol 2017-18. Yn gyffredinol, ymgymerodd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol â dau sesiwn craffu ar y cyd ar wahân gyda Phwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant ar gynigion ar gyfer darparu Gorsaf Fysus Caerdydd newydd. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ymchwilio i'r canlynol gyda'r Cynghorydd Russell Goodway – yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, ac uwch swyddogion: mecanweithiau ariannu, trafodion tir, i ba raddau roedd y cynigion yn cyd-fynd â'r cynigion adfywio ar gyfer Sgwâr Canolog, yr Orsaf Drenau Ganolog a'r Cei Canolog; rheoli risgiau, a dichonolrwydd eu rhoi ar waith.

**Galw i mewn – Medi 2017 -** Ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad, cafodd ei alw i mewn gan y Cynghorydd McEvoy ac ym mis Medi 2017, cynhaliodd y Pwyllgor gydgyfarfod gyda'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol er mwyn ystyried y meysydd a nodwyd yn y Galw i Mewn.

Mewn Cyfarfod Galw i Mewn, clywodd Aelodau gan y Cynghorydd McEvoy a chynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Bysus Caerdydd a'r Fro, Dr. Max Wallis, a'r Cynghorydd Russell Goodway ac uwch swyddogion. Wedi ystyried y dystiolaeth a rheolau gweithdrefn Galw i Mewn fel y'u nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor, pleidleisiodd yr Aelodau dros beidio â chyfeirio'r eitem at y Cyngor Llawn na'r Cabinet i'w hystyried.

# YMHOLIADAU

## Ymateb y Cabinet i Reoli Arian Adran 106 ar gyfer Datblygu Projectau Cymunedol (16 Ionawr 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 16 Ionawr 2018 gyfle i Aelodau graffu a rhoi sylwadau ar Ymateb y Cyfarfod i Reoli Cyllid Adran 106 er mwyn Datblygu Projectau Cymunedol. Roedd yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, a Cynllunio Strategol yn bresennol yn y cyfarfod a daeth swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas i'w gynorthwyo. Darparwyd manylion o ymateb y Cabinet i'r adroddiad ac yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor ymateb cadarnhaol iawn y Cabinet i'r adroddiad. Roeddent yn optimistaidd y byddai'r ymagwedd newydd yn rhoi'r cynghorwyr lleol wrth galon y broses gwneud penderfyniad ar gyfer adnabod projectau cymunedol addas i'w cyllido gan gyfraniadau adran 106.

- Pwysleisiodd y Pwyllgor y byddai hyfforddiant i gynghorwyr ar y broses newydd ar gyfer dynodi cyllid adran 106 ar gyfer projectau cymunedol yn hanfodol ac y dylid ei gefnogi gan hyfforddiant ehangach ar gyfraniadau adran 106 a mathau eraill o rwymedigaethau cynllunio.

- Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol y byddai'r broses newydd i ddyrannu cyllid adran 106 ar gyfer projectau cymunedol yr un gyntaf o'i math. Roedd hyn yn golygu y byddai, yn ôl pob tebyg, gyfres o broblemau cychwynnol a llu o wersi i'w dysgu yn ystod y flwyddyn gyntaf, gyda hyn

mewn golwg, gofynnodd y Pwyllgor am adolygiad deuddeg mis o'r broses er mwyn ystyried y gwersi a ddysgwyd a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

## Gwella Ansawdd Aer Caerdydd

Yn ystod proses rhaglennu gwaith y Pwyllgor, penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol flaenoriaethu cynnal ymarfer gwaith a gorchwyl a gorffen ar ansawdd yr aer yn y ddinas. Cafodd ymarfer gorchwyl a gorffen ar ansawdd yr aer ei gwmpasu a chytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad o'r enw 'Gwella Ansawdd Aer Caerdydd'. Mae cylch gorchwyl ar gyfer yr ymarfer wedi'i nodi isod:

*Nod yr ymchwiliad yw rhoi cyfle i'r Aelodau archwilio ac ystyried sut gall y Cyngor helpu i wella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu:*

- ***Sefyllfa Ansawdd Presennol yr Aer –*** *i gynnwys adroddiad a dadansoddiad yr ardaloedd yr effeithir arnynt waethaf; y ffactorau mwyaf sy'n cyfrannu at lygredd aer yng Nghaerdydd; adnoddau, trefniadau monitro a chyfrifoldebau statudol; yr effaith ar iechyd y cyhoedd; ystyried unrhyw gynlluniau gweithredu ar ansawdd yr aer i Gaerdydd; ystyried cyfrifoldebau ansawdd yr aer a roddir ar y Cyngor.*

- ***Datblygu Strategaeth Aer Glân Caerdydd –*** *i gynnwys adroddiad ar nodau ac amcanion y strategaeth; polisïau cysylltiedig sy'n cefnogi datblygu'r strategaeth; adnoddau ac amserlen ar gyfer cyflawni'r strategaeth; effaith y strategaeth a ddyhëir a'r prif ardaloedd y bydd y strategaeth yn eu targedu.*

- ***Safbwynt Llywodraeth Cymru ar Ansawdd Aer –*** *er mwyn cael dealltwriaeth o amcanion polisïau Llywodraeth Cymru yn nhermau ansawdd yr aer; deall yr amserlenni perthnasol a chanlyniadau'r Cyngor os na fyddant yn bodloni'r amcanion polisi hyn; adnabod yr amserlenni y*

*mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid eu targedu er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ansawdd yr aer.*

- ***Trafnidiaeth –*** *i ddeall yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y gall trafnidiaeth (a systemau trafnidiaeth) eu cael ar ansawdd yr aer yng Nghaerdydd; i sefydlu hierarchaeth o ffynonellau llygredd gan drafnidiaeth ac arfarnu'r hyn y gellir ei wneud i reoli'r ffynonellau llygru gwaethaf; adolygu cynlluniau a seilwaith trafnidiaeth a gynllunnir i'w datblygu neu sydd wrthi'n cael eu cyflawni yng Nghaerdydd; archwilio buddion rheoli fflydau cynaliadwy yng Nghaerdydd; ystyried yr effaith y gall newidiadau o ran technoleg a chanfyddiad ei chael ar ansawdd yr aer.*

- ***Ffynonellau Llygredd eraill –*** *i ystyried ystod o ffynonellau llygredd (ac eithrio trafnidiaeth) a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar ansawdd yr aer yng Nghaerdydd; sefydlu hierarchaeth o ffynonellau llygredd (ac eithrio trafnidiaeth) ac arfarnu beth gellir ei wneud i reoli'r ffynonellau llygru gwaethaf; adolygu cynigion sy'n cael eu datblygu neu eu cyflawni (ac eithrio trafnidiaeth) er mwyn lleihau llygredd yng Nghaerdydd.*

- ***Cynllunio a Datblygu –*** *deall sut y gellir defnyddio'r prosesau cynllunio a datblygu i wella llygredd yng Nghaerdydd; ystyried y prosesau/ polisïau cynlluniau presennol a sut y mae'r rhain yn cael effaith ar lygredd yr aer; yr effaith y gallai twf y ddinas ei chael o bosibl ar ansawdd yr aer.*

- ***Tanwydd Cynaliadwy –*** *deall yr heriau a'r cyfleoedd y gall twf tanwydd cynaliadwy eu cael ar ansawdd yr aer yng Nghaerdydd, er mwyn ystyried rôl y Cyngor yn nhermau helpu i sefydlu'r farchnad leol ar gyfer tanwydd cynaliadwy; ystyried yr hyn y gall y Cyngor a'i bartneriaid ei wneud yn rhagweithiol i gefnogi symud at danwydd cynaliadwy.*

- ***Parthau Aer Glân –*** *deall sut mae Parthau Aer Glân yn gweithio; yr effaith y gallai Parth Aer Glân ei chael ar ansawdd yr aer yng Nghaerdydd a'r goblygiadau i'r ddinas: costau a chyfleoedd gosod parth aer glân; arfer gorau o ran darparu Parthau Aer Glân (i gynnwys enghreifftiau )ac enghreifftiau domestig a rhyngwladol).*

Roedd gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn helaeth ac roedd ymarfer gorchwyl a gorffen 'Gwella Ansawdd Aer Caerdydd' yn cynnwys:

- Naw cyfarfod grŵp gorchwyl;
- 17 sesiwn tystion ar wahân;
- Ymdrin â 38 o dystion arbenigol (26 yn allanol i'r Cyngor a 12 yn fewnol i'r Cyngor);
- Yn gweithio'n agos gydag Aelodau Cabinet a staff y Cyngor yn datblygu Strategaeth Aer Glân Caerdydd;
- Adroddiadau ymchwil craffu ar arfer gorau ar 'Parthau Aer Glân' ac adolygiad allyriadau fflyd sector cyhoeddus Caerdydd;
- Ystyriaeth o'r meysydd sy'n cael eu defnyddio i strwythuro Strategaeth Aer Glân Caerdydd, er enghraifft, Trafnidiaeth, Cynllunio, Tanwydd Cynaliadwy;

Gwnaeth yr adroddiad gyfres o ganfyddiadau allweddol a 31 o argymhellion a ddyluniwyd i helpu gwella Ansawdd Aer Caerdydd. Roedd rhai o'r prif themâu a gynhyrchwyd gan yr argymhellion yn cynnwys:

- Rhoi iechyd y cyhoedd wrth galon Strategaeth Aer Glân Caerdydd – mae llygredd aer yn achosi tua 40,000 o farwolaethau cynamserol yn y DU bob blwyddyn;
- Creu parth allyriadau isel yn Heol y Porth drwy ganolbwyntio ar leihau allyriadau Nitrogen Deuocsid o Fysus Disel
- Pwyso am seilwaith tanwydd cynaliadwy i Gaerdydd er mwyn cefnogi'r twf o ran defnyddio cerbydau allyriadau isel, er enghraifft trydan a hydrogen;
- Mwy o gynllunio rhanbarthol gyda sefydliadau awdurdodau lleol cyfagos er mwyn helpu i leihau allyriadau a achosir gan deithio cymudwyr;

- Cyflymu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithiol llesol, er enghraifft, mwy o lonydd bysiau a beiciau;
- Defnyddio mentrau tymor byr o fewn rheolaeth y Cyngor i yrru newid moddol, er enghraifft parthau 20 milltir yr awr a chynlluniau parcio i breswylwyr;
- Arwain trwy esiampl, er enghraifft, newid fflyd y Cyngor i gerbydau allyriadau isel ac adeiladu defnydd tanwydd allyriadau isel i mewn i broses gaffael y Cyngor.

## Rheoli Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd

Yn ystod proses rhaglennu gwaith y Pwyllgor, penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol flaenoriaethu cynnal ymarfer gwaith a gorchwyl a gorffen ar sbwriel a thipio anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn drefol. Cynhaliwyd cyfarfodydd cwmpasu ym mis Mawrth ac ym mis Ebrill 2018 a chytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad. Rhestrir hyn isod:

- *Ymgymryd â dadansoddiad a meincnodi ar sut mae awdurdodau lleol eraill yn rheoli sbwriel a thipio anghyfreithlon, gyda phrif nod o adnabod arfer gorau. Dylai'r dadansoddiad cymharol a'r meincnodi ganolbwyntio ar berfformiad dinasoedd craidd, awdurdodau lleol Cymru a dinasoedd sydd â phoblogaeth myfyrwyr fawr.*
- *Ymgymryd ag arolwg manwl ar sbwriel a thipio anghyfreithlon er mwyn profi canfyddiadau'r cyhoedd ar sut maent yn teimlo am sbwriel, tipio anghyfreithlon a glanweithdra ehangach ar y strydoedd yng Nghaerdydd.*
- *Trefnu nifer o ymweliadau gan Aelodau â gwasanaethau glanhau strydoedd a gorfodi gwastraff rheng flaen er mwyn helpu i gael dealltwriaeth well o'r gwaith maent yn eu gwneud a heriau pob dydd maent yn eu hwynebu.*

- *Cymharu perfformiad Caerdydd yn nhermau rheoli sbwriel a thipio anghyfreithlon yn erbyn arfer gorau a nodwyd yn y dadansoddiad cymharol a’r meincnodi.*

Y camau nesaf ar gyfer yr ymarfer gorchwyl a gorffen hwn yw cwblhau’r ymchwil a gomisiynwyd; ymgymryd ag arolwg cyhoeddus ar sbwriel a thipio anghyfreithlon a chwblhau cyfres o ymweliadau i gysgodi swyddi rheng flaen er mwyn i’r Aelodau gael profiad uniongyrchol o sut mae’r Cyngor yn rheoli sbwriel a thipio anghyfreithlon.

# MONITRO PERFFORMIAD

## Monitro Perfformiad Chwarterol – 2017/18

Yn ystod 2017/18 derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ar gyfer Chwarteri 1 a 2 2017/18.  Roedd hyn yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaethau o fewn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas a Gwasanaethau Cydweithredol (a oedd ar y pryd yn rhan o Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd). Y prif sylwadau a wnaed yn ystod y craffu monitro chwarterol oedd:

### ➢ Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas – Adroddiadau Perfformiad Chwarter 1 a 2 (5 Rhagfyr 2017)

- Trafodwyd y pwnc o barthau 20 milltir yr awr fel rhan o'r eitem hon. Gofynnodd Aelod am restr o'r amcanion sydd ynghlwm wrth weithredu parthau 20 milltir yr awr Caerdydd ac am eglurhad o ran a oeddent wedi'u cyflawni.

### ➢ Gwasanaethau Masnachol a Chydweithredol – Chwarteri 1 a 2 Adroddiadau Perfformiad (5 Rhagfyr 2017)

- Ystyriwyd y pwnc o lefelau salwch mewn Gwasanaethau Masnachol yn ystod y cyfarfod. Gofynnodd yr aelodau sut oedd y cyfraddau salwch yn ein gwasanaethau gwastraff yn cymharu yn erbyn awdurdodau eraill a dywedwyd wrthynt bod cyfraddau ein timau ni yn debyg neu'n is na'r rhai mewn awdurdodau lleol eraill.  Pwysleisiwyd hefyd bod cyfraddau salwch yn y sectorau yn gyffredinol is oherwydd bod ganddynt bolisïau absenoldeb oherwydd salwch llymach.  Cydnabu'r aelodau hyn ac roddent yn awyddus i ddeall sut mae cyfraddau salwch yn ein gwasanaethau gwastraff yn cymharu yn erbyn dinasoedd craidd eraill yn y Deyrnas Unedig.  Gofynnon nhw am adroddiad meincnodi byr er mwyn cymharu'r

cyfraddau salwch ar gyfer gwasanaethau gwastraff Caerdydd yn erbyn y dinasoedd craidd eraill yn y Deyrnas Unedig.

- Yn y cyfarfod, dywedodd yr Aelod Cabinet fod Caerdydd bob blwyddyn wedi amserlenui tua 24 miliwn o gasgliadau gwastraff ac o’r cyfanswm hwn hyn collwyd tua 18,000 ohonynt.  Hefyd dywedwyd wrth yr aelodau na thalwyd unrhyw oramser am anfon criwiau allan i gasglu’r casgliadau a gollwyd.  Fel gwaith dilynol i’r cwestiwn hwn, gofynnodd Aelod a aeth y Cyngor i unrhyw gostau ychwanegol oherwydd y casgliadau hyn a gollwyd, h.y. costau heblaw am oramser, ac os felly a ellid eu darparu’n ysgrifenedig.

# ADOLYGIAD POLISI

## Projectau Digideiddio Gweithrediadau'r Ddinas (16 Ionawr 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 16 Ionawr 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Projectau Digideiddio Gweithrediadau'r Ddinas' er mwyn archwilio cynnydd gweithredu digideiddio ar draws Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas cyn craffu ar y gyllideb ym mis Chwefror 2018. Roedd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd ei gefnogi gan swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas. Diben yr adroddiad i'w dderbyn gan y Cabinet oedd:

- Rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu nifer o brojectau digideiddio sy'n cael eu datblygu a'u cyflawni ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau o fewn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Yn gyffredinol nododd yr ymgynghoriad ar y gyllideb nifer o arbedion o ran digideiddio, gan gynnwys 'CONSULT 1' ar gyfer £212,000 a gafodd ei ddyrannu yn erbyn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas. Daeth yr arbediad posibl yn y gyllideb yn erbyn y categori 'Cynhyrchu Incwm' a chafodd ei ddisgrifio fel:

  *'Gwella Projectau Codi a Chynhyrchu Incwm – Cynhyrchu rhagor o incwm trwy gynnydd o ran ffioedd a thaliadau ar draws Gweithrediadau'r Ddinas yn ogystal â mwyafu cyfleoedd am ailgodi am wasanaethau, yn enwedig trwy ddigideiddio'.*

  Sgoriwyd yr arbediad yn gyson yn 'Wyrdd' a chafodd ei restru yn erbyn portffolio'r Cabinet Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth. Yn y cyfarfod,

gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion a sut y cyflawnid yr arbediad o £212,000, ond ni chawsant esboniad digon manwl. Esboniodd y llythyr i'r Aelod Cabinet fod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn mynd i graffu ar y cynigion ar gyfer y gyllideb mewn cyfarfod ar 14 Chwefror, a phe byddai'r arbediad 'CONSULT 1' o £212,000 yn ymddangos o hyd fel llinell yn y gyllideb, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl ateb mwy manwl.

- Yn y cyfarfod, codwyd nifer o gwestiynau am 'Consult 38' o'r 'Cynigion ar gyfer Cyllideb 2018/19 – i Ymgynghori Arnynt'. Roedd hyn yn cyfeirio at arbediad o £1.206 miliwn a gafodd ei ddyrannu yn erbyn y gyllideb Rheoli Corfforaethol ochr yn ochr â'r 'Prosesau Busnes gan gynnwys Digideiddio'. Disgrifiwyd yr arbediad fel:

  *'Effeithlonrwydd Ledled y Cyngor – Yn unol â strategaeth ddigidol y Cyngor, bydd yr arbediad hwn yn cael ei gyflawni trwy gyflawni effeithlonrwydd busnes trwy wariant trydydd parti, prosesau codi, technoleg ac adnoddau staff. Bydd hyn yn rhoi defnydd ffurfiau digidol ar gyfathrebu a darparu gwasanaethau ar ganol sut mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn rhyngweithio gyda'r bobl mae'n eu gwasanaethu.'*

  Sgoriwyd yr arbediad o ran risg yn gyson fel 'Coch – Ambr' ac fe'i rhoddwyd o dan y categori arbed 'I'w gadarnhau'. Rhagwelwyd bod yr arbedion hyn i'w cymhwyso 'Ledled y Cyngor' ac yn hynny o beth gallai rhan o'r arbediad £1.206 miliwn gael ei gymhwyso yn erbyn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas neu wasanaethau eraill a allai o bosibl ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. Gofynnodd yr Aelodau faint (os o gwbl) o'r arbediad a gâi ei gymhwyso yn erbyn Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas neu unrhyw wasanaethau eraill a ddarparwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. Nid oedd swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas yn gallu rhoi ateb i'r cwestiwn, gan esbonio ei fod yn fater i'r 'Rheolwyr Corfforaethol' a oedd yn cael ei ddatblygu o hyd. Roeddent hefyd yn methu ateb ail gwestiwn o ran a roddwyd cynllun busnes manwl ar waith er mwyn sicrhau bod yr arbediad yn cael ei gyflawni. Teimlai'r Pwyllgor yn bryderus ynglŷn ag a ellid cyflawni'r arbedion oherwydd y

methiant i roi esboniad digonol ynglŷn â sut y gellid cyflawni arbediad digideiddio o £1.206 miliwn a’r effaith a gâi ar wasanaethau sy’n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, ac felly penderfynwyd y Pwyllgor i gyfeirio’r mater i Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisïau a Chraffu ar Berfformiad cyn y craffu ar y gyllideb ar 14 Chwefror.

- Yn ystod y cyfarfod esboniwyd bod technoleg ddigidol fodern yn gallu darparu effeithlonrwydd ac arbedion, fodd bynnag, roedd gofyn hefyd am fuddsoddi cyson ychwanegol er mwyn sicrhau bod yr holl uwchraddiadau sydd eu hangen yn cael eu cymhwyso.  Mae hyn yn golygu y bydd angen cefnogi cyllidebau technoleg yn y dyfodol trwy  godiadau rheolaidd o ran cyllid er mwyn sicrhau bod systemau yn parhau i weithio heb golli enillion o ran arbedion/effeithlonrwydd.  Yn y llythyr i’r Aelod Cabinet, nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o gwmnïau preifat mawr yn neilltuo cynyddiadau rheolaidd ar gyfer cyllidebau technoleg ac ni ddylai'r Cyngor fod yn wahanol.  Nodwyd y pwynt hwn yn llythyr y Pwyllgor at Gadeirydd pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad o ran ystod y projectau digideiddio ‘Cyngor Cyfan'.

## Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu – (17 Ebrill 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 17 Ebrill 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Diweddariad i'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff' er mwyn adolygu cynigion yn y dyfodol ar gyfer ailgylchu a rheoli gwastraff yn y ddinas. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd ei gefnogi gan swyddogion y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Darparwyd y rhan fwyaf o'r manylion ar yr eitem mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor o'r enw 'Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018-2021' a ganolbwyntiodd ar y cefndir i'r adroddiad; yr heriau su'n wynebu'r Cyngor yn nhermau ailgylchu; rhoi prawf ar biniau ag olwynion ac ailgylchu poteli gwydr a'r ymarfer ymgynghori ar gyfer y strategaeth. Darparwyd manylion o ymateb y Cabinet i'r adroddiad ac yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Edrychai'r Pwyllgor ymlaen at dderbyn y papurau Cabinet drafft ar y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai fel y gallent ymgymryd â chraffu cyn y penderfyniad.

- Pwysleisiodd Aelod y pwynt bod gwahaniaethau mawr rhwng yr heriau ailgylchu a gafwyd ar draws 29 ward Caerdydd. Gyda hyn mewn golwg, teimlai'r Pwyllgor y dylid cymhwyso ymagwedd hyblyg i ddatblygu'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff, ac os nad oedd cynnig ailgylchu'n llwyddiannus mewn un ward, nid oedd yn golygu na fyddai'n gweithio'n dda mewn un arall.

- Roedd Aelodau'n bryderus am y sylw a wnaed gan yr Aelod Cabinet fod y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol ond yn cyflawni cyfraddau ailgylchu o tua 25%, a bod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyfradd ailgylchu

Caerdydd yn gyffredinol.  Teimlai'r Pwyllgor fod hyn yn rhywbeth yr oedd angen ei wella er mwyn sicrhau bod cyfraddau ailgylchu'n cynyddu.

- Cytunodd yr aelodau ei fod yn bwysig cynnal ymarfer ymgynghori tri mis trwyadl iawn ar gyfer strategaeth. Gwnaethant hefyd bwysleisio pwysigrwydd ymgynghori manwl gydag Aelodau'r ward lleol gan eu bod yn meddu ar dipyn o wybodaeth leol am y wardiau maent yn eu cynrychioli; bydd y wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer darparu Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff hyblyg bwrpasol ar gyfer Caerdydd.

## Rheoli Hylendid Bwyd yng Nghaerdydd (3 Hydref 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 3 Hydref 2017 gyfle i'r Aelodau graffu a rhoi sylwadau ar eitem o'r enw 'Rheoli Hylendid Bwyd yng Nghaerdydd' er mwyn adolygu sut y caiff hylendid bwyd ei reoli yn y ddinas. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd ei gefnogi gan swyddogion y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir. Diben yr adroddiad oedd adolygu:

- Y rôl, y cyfrifoldebau a'r heriau sy'n wynebu Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir wrth reoli hylendid bwyd yng Nghaerdydd;
- Nodau ac amcanion Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn nhermau rheoli hylendid bwyd yng Nghaerdydd;
- Targedau perfformiad sy'n wynebu Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer rheoli hylendid bwyd yng Nghaerdydd;
- Yr adnoddau sydd ar gael i Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer rheoli hylendid bwyd yng Nghaerdydd.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cydnabu'r Pwyllgor fod yr adnoddau sydd ar gael i Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer rheoli hylendid bwyd yng Nghaerdydd yn gyfyngedig o ystyried graddau'r dasg. Ar yr un pryd, roedd y targedau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hylendid bwyd yn uchel iawn; er enghraifft, roedd targed o 93% ar gyfer PAM/023 sy'n mesur canran y sefydliadau bwyd a oedd yn cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd. Gan ystyried yr heriau a wynebir, teimlai'r Aelodau fod Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn haeddu cael eu llongyfarch am y gwaith a'r canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt.

- **Cynhyrchu Incwm –** Cefnogodd yr Aelodau'r ymagwedd a gymerwyd gan Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir wrth gynhyrchu incwm o rai

gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hylendid bwyd. Deallodd y Pwyllgor fod yr ymagwedd yn gymharol newydd ac nad oedd yn realistig i'r incwm a godir gael ei osod yn llwyr yn erbyn unrhyw doriadau mewn cyllid yn y dyfodol. Wrth gofio hyn, anogodd y Pwyllgor yr Aelod Cabinet i adolygu'r ymarfer gorau yn barhau ar draws y diwydiant hylendid bwyd er mwyn helpu i adnabod unrhyw ffrydiau incwm newydd posibl.

- **Ymestyn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd –** roedd yn glir bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wedi cael effaith wirioneddol gadarnhaol yn nhermau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a safonau hylendid bwyd yng Nghaerdydd. Gwelodd busnesau Sgôr Hylendid Bwyd da fel ased ac roedd yn ymddangos bod y cyhoedd yn defnyddio'r sgôr fel ffactor wrth benderfynu ble i fwyta. Yn ystod y cyfarfod, archwiliodd yr Aelodau y syniad o roi Sgorau Hylendid Bwyd ar fwydlenni a gwefannau tecawê. Dywedwyd wrthynt nad oes unrhyw ofyniad statudol ar hyn o bryd i hyn ddigwydd, fodd bynnag, mae'n rhywbeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ystyried. Roedd barn o ran a ddylid ychwanegu Sgorau Hylendid Bwyd at wefannau neu fwydlenni tecawê wedi'i rhannu, ac roedd rhai Aelodau o'r farn y dylai dolen i wefan Safonau Bwyd fod yn ddigonol, gyda rhai eraill yn teimlo bod sgôr ar fwydlen neu wefan yn ddewis oedd yn fwy tryloyw o lawer. Y naill ffordd neu'r llall, roedd y Pwyllgor yn credu bod amlygu'r sgôr neu sut i gael mynediad at y sgôr yn bwysig oherwydd ei fod yn rhoi'r cyhoedd mewn sefyllfa well i wneud dewis deallus.

- **Digwyddiadau Hylendid Bwyd a Dargedir –** Roedd yr aelodau'n falch bod Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cynnal digwyddiadau hylendid bwyd; yn benodol cafodd y ffaith bod tua 180 o fusnes wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad yn Stadiwm y Principality yn ddiweddar argraff dda arnynt. Teimlai'r Pwyllgor y gellid datblygu'r ymagwedd hon ymhellach er mwyn cefnogi rhai sefydliadau arlwyo bwyd sy'n anoddach eu cyrraedd trwy gynnal digwyddiadau a dargedir mewn ardaloedd daearyddol penodol, er enghraifft, awgrymwyd y syniad o gynnal digwyddiad a dargedir ar fusnesau bwyd ar Heol y Plwca.

## Gwasanaethau Tacsi Caerdydd (3 Hydref 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 3 Hydref 2017 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Gwasanaethau Tacsi Caerdydd' i adolygu safonau'r ddarpariaeth tacsis yn y ddinas. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd ei gefnogi gan swyddogion o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir. Diben yr adroddiad oedd:

- Rhoi briff i'r Aelodau ar y ffordd y mae Gwasanaethau Tacsi yng Nghaerdydd yn gweithredu ar hyn o bryd, yr heriau maent yn eu hwynebu ac i ystyried lle y gellir cyflawni gwelliannau o bosibl.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, yn gwneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Blocio Lonydd Bysiau –** Roedd rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus am pa mor aml y caiff lonydd bysiau eu blocio gan dacsis yng nghanol y ddinas. Esboniodd y swyddogion y caniateir i dacsis ddefnyddio lonydd bysiau Caerdydd ac y caniateir gollwng a chodi, fodd bynnag, roedd rhaid gwneud hyn o fewn amserlen 'resymol'; ni chaniateir defnyddio'r lonydd bysiau fel mannau sefyllian am gyfnodau estynedig neu safleoedd tacsis answyddogol. Teimlai'r Pwyllgor fod angen cadw'r lonydd bysiau yn glir gan fod rhwystrau diangen yn oedi teithiau bws ac yn cael effaith ar darged newid moddol 50:50 Caerdydd. Roedd yr Aelodau'n awyddus i'r camau gweithredu gorfodi cryfaf posibl gael eu cymryd yn erbyn troseddwyr parhaus yn y gobaith y byddai hyn yn pwysleisio'r neges nad yw'r Cyngor yn goddef tacsis yn blocio lonydd bysiau.

- **Gwirio Tacsis ar Hap–** Cefnogodd y Pwyllgor ddefnydd hapwiriadau rheolaidd ar dacsis yn gryf, er mwyn sicrhau y dilynir amodau a safonau

trwyddedu yng Nghaerdydd.  Pwysleisiodd un o’r Aelodau bwysigrwydd gwirio manylion yr unigolyn yn erbyn y cynllun trwyddedu cerbydau a gyrwyr tacsis eu hunain er mwyn dangos eu bod yn yrwyr awdurdodedig. Cytunodd y Pwyllgor â’r syniad o gael gwiriad dilysu gyrwyr mwy trwyadl fel rhan o'r broses hapwirio - roeddent yn teimlo y byddai hyn yn helpu i wella diogelwch a safonau tacsis yn y ddinas.

- **Safleoedd Tacsis –** Trafodwyd y mater o safleoedd tacsis a’r effaith y maent yn ei chael ar ganol y ddinas yn y cyfarfod. Daeth yr Aelodau i’r casgliad ei bod yn amser adolygu darparu safleoedd tacsis yng nghanol y ddinas a gofyn i'r Aelod Cabinet i ymgymryd ag adolygiad o safleoedd tacsis.

- **Marsialiaid Tacsi –** Croesawodd yr aelodau fwriad Ardal Gwella Busnes Caerdydd (BID i ariannu penodi marsialiaid tacsis ychwanegol yng nghanol y ddinas. Teimlai’r Pwyllgor y byddai hyn yn gwella darpariaeth ac yn gwella cynnig tacsis Caerdydd. Yr unig bryder a oedd gan yr Aelodau oedd sicrhau safon gyson ar draws y BID a staff a ariennir gan y Cyngor fel bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth di-dor a chyson.

- **Polisïau Tacsis Cyffredin –** Roedd yr aelodau’n falch o glywed bod creu Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir wedi arwain i raddau helaeth at safoni'r prosesau trwyddedu tacsis ar draws Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Roeddent yn teimlo bod hyn yn gam cadarnhaol iawn ymlaen a bod safoni’n rhywbeth a fyddai ond o fudd i safonau trwyddedu tacsis ledled Cymru gyfan.

## CRAFFU CYN Y PENDERFYNIAD

### Adroddiad Monitro Blynyddol Cyntaf Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (3 Hydref 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 3 Hydref 2017 gyfle i'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Briff i Aelodau: Adroddiad Monitro Blynyddol Cyntaf Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd'. Y rheswm dros dderbyn yr adroddiad oedd rhoi briff byr i'r Aelodau ar gynnwys adroddiad Cabinet o'r enw 'Adroddiad Monitro Blynyddol Cyntaf Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd' a gafodd ei gyflwyno'n ddiweddarach i'r Cabinet ar Ddydd Iau 21 Medi 2017. Gofynnwyd i'r aelodau nodi cynnwys yr eitem a thrafod unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol yn perthyn i'r adroddiad. Y prif sylw oedd mai'r ddogfen oedd y gyntaf mewn cyfres o adroddiadau a gynlluniwyd i fesur cynnydd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd; yn hynny o beth, y peth gorau y gallai'r adrodd ei wneud oedd adnabod nifer o werthoedd gwaelodlin yn erbyn cynnydd yn y dyfodol y gellid eu mesur. Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad a chytuno i ymgymryd â chraffu pellach ar 'Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd' sydd i'w gyhoeddi yn hydref 2018.

## Cynllun Corfforaethol Drafft 2018 i 2021 a chynigion Drafft ar gyfer Cyllideb y Cabinet 2018/19(14 Chwefror 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 14 Chwefror 2018 gyfle i'r Pwyllgor graffu a gwneud sylwadau ar y Cynllun Corfforaethol Drafft 2018 i 2021 a chynigion Drafft ar gyfer Cyllideb y Cabinet 2018/19'. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a Chyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i'r cyfarfod. Cawsant eu cefnogi gan swyddogion o Weithrediadau'r Ddinas, Gwasanaethau Masnachol a Chydweithredol a'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau.

Aeth y llythyr a anfonwyd ar ôl y cyfarfod i'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad gynnwys y cyfarfod cyfan a gwnaeth y pwyntiau allweddol canlynol:

**Trosolwg Corfforaethol**

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus o ran y costau benthyca cynyddol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Cyfalaf – esboniwyd yn y cyfarfod y gallai'r taliadau llog gyfrif am 16.5% o gyllideb refeniw'r Cyngor erbyn 2022/23. Er bod yr Aelodau'n cefnogi mwyafrif y cynigion sy'n gynwysedig yn y Rhaglen Cyfalaf roeddent yn bryderus nad oedd y Cyngor yn gwario arian yfory heddiw. Ar yr un pryd gwnaethant gydnabod fod cyfraddau llog yn eithriadol o isel ar y pryd felly roedd rhai o'r Pwyllgor o'r farn ei fod yn amser da i fenthyca a buddsoddi. Daeth yr aelodau i'r casgliad y byddai'n gall adolygu'r Rhaglen Cyfalaf er mwyn blaenoriaethu unrhyw brojectau hanfodol.

**Portffolio Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth – Cynigion Drafft ar gyfer y Gyllideb 2018/19 – Trosolwg Corfforaethol**

- Roedd yr aelodau’n falch o weld bod £1.4 miliwn wedi’i gynnwys yn y Rhaglen Cyfalaf er mwyn cyflawni Cyfnewidfa Bysiau Trafnidiaeth y Gorllewin. Gwnaethant gytuno bod creu cyfres o hybiau trafnidiaeth ar gyfer y ddinas yn hanfodol i gadw'r ddinas i symud ac y byddai datblygiad o'r fath yn cefnogi gweithredu 'r hyb trafnidiaeth integredig newydd. Cefnogodd y Pwyllgor y buddsoddiad cyfalaf, ond ar yr un pryd anogodd y Cyngor i sicrhau bod o leiaf rai o'r hybiau trafnidiaeth lloeren yn weithredol erbyn i'r hyb trafnidiaeth integredig newydd gael ei gwblhau.

**Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r  Amgylchedd – Cynigion Drafft ar gyfer Cyllideb 2018/19 – Trosolwg Corfforaethol**

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus am y lleihad o ran ailgylchu oherwydd y gostyngiad mewn prisiau yn fyd-eang.  Gwnaethant gytuno â darpariaeth y bid o ran pwysau ariannol am £523,000 i gefnogi twf ailgylchu sych ac i ddigolledu am y gostyngiad mewn incwm.  Deallodd yr Aelodau ei fod yn rhoi her anodd i'r Cyngor ac maent yn cymeradwyo'r Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd a swyddogion o Wasanaethau Masnachol a Chydweithredu am gymryd camau cadarnhaol i liniaru a datrys y broblem.

## Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol (6 Mawrth 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 6 Mawrth 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol' sydd i'w dderbyn yng nghyfarfod y Cabinet ar 15 Mawrth 2018. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd i'r cyfarfod a chafodd ei gefnogi gan swyddogion gan Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas. Diben yr adroddiad i'w dderbyn gan y Cabinet oedd:

- Darparu briff i'r Cabinet ar gyflwr presennol amddiffyniadau arfordirol Caerdydd a'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru;

- Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am yr ymrwymiad i gaffael dyluniad ac adeiladwaith manwl yr amddiffyniadau arfordirol a werthusir fel £11 miliwn.

Yn dilyn trafodaethau, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr i'r Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cefnogodd y Pwyllgor y cynllun i wella amddiffynfeydd llifogydd arfordirol rhwng Rover Way yn y gorllewin a Lamby Way yn y dwyrain. Teimlant ei fod yn hanfodol i sicrhau bod y nifer fawr o gartrefi a busnesau yn yr ardal yn cael eu hamddiffyn yn briodol yn erbyn erydu arfordirol a risgiau llifogydd posibl yn y dyfodol. Roeddent yn credu bod gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cynllun yn gadarnhaol iawn ac roeddent yn edrych ymlaen at graffu ar y cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer cam nesaf y broses.

- Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n beth cadarnhaol iawn pe gallai'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd arfordirol newydd gael ei ddylunio i gefnogi bywyd gwyllt yn yr ardal a chaniatáu ar gyfer ystod newydd o gyfleoedd hamdden, er enghraifft cerdded.  Gofynasant i'r Aelod Cabinet dros

Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd i edrych ar y opsiynau hyn a gwneud yr hyn y gallai i'w hadeiladu i mewn i'r broses ddylunio.

- Gofynnodd Aelod a gafodd modelu digonol ei wneud i asesu'r effaith y byddai creu'r cynllun yn ei chael ar ardaloedd arfordirol gerllaw eraill. Awgrymwyd y cafodd rhywfaint o waith modelu ei wneud ac felly gofynnodd Aelodau am ragor o fanylion am unrhyw wybodaeth am fodelu arfordirol a wnaed ar gyfer gweithredu arfaethedig y cynllun.

## Gofod Claddu Newydd – Nodyn Briffio Aelodau (6 Mawrth 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 6 Mawrth 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o’r enw ‘Lle Claddu Newydd – Nodyn Briffio Aelodau’. Roedd hyn cyn i bapur Cabinet o’r enw ‘Gofod Claddu Newydd’ gael ei dderbyn yn y cyfarfod Cabinet ar 15 Mawrth 2018. Diben yr adroddiad oedd i’w dderbyn gan y Cabinet oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatblygu darn o dir presennol a berchnogir gan y Cyngor i'r Gogledd o’r M4 ar yr A469 ar gyfer lle newydd i fynwent. Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor i’r Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd aelodau’r Pwyllgor yn cefnogi’r cynnig i leoli’r fynwent newydd yn Fferm Y Ddraenen ac roeddent yn teimlo bod ei agosrwydd at Amlosgfa'r Ddraenen Wen a'r cyfleusterau y mae'n eu cynnig yn golygu ei bod yn opsiwn resymegol.

- Gofynnodd y Pwyllgor, cyn i unrhyw waith ddechrau ar Gam 1 o’r datblygiad bod asesiad yn cael ei wneud i weld a allai gyflawni trwy ddarparu’r holl seilwaith cefnogol gofynnol ar gyfer y safle cyfan ar y cychwyn cyntaf.

## Craffu cyn Penderfyniad: Ansawdd yr Aer – Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru (27 Mawrth 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 27 Mawrth 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Craffu Cyn Penderfyniad: Ansawdd yr Aer – Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru' i'w dderbyn yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Mawrth 2018. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; Cynllunio Strategol ar Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol i'r cyfarfod a chawsant eu cefnogi gan swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas. Diben yr adroddiad i'w dderbyn gan y Cabinet oedd:

- Nodi bod y Cyngor wedi derbyn cyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru o'r enw Deddf yr Amgylchedd 1995 (astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer Cydymffurfio parthed Nitrogen Deuocsid) Cyfarwyddyd Ansawdd yr Aer 2018;
- Galluogi'r Cabinet i gymeradwyo ymgymryd astudiaeth dichonolrwydd fel sy'n ofynnol gan y cyfarwyddyd cyfreithiol o Lywodraeth Cymru;
- Cymeradwyo caffael ymgynghorydd arbenigol i ymgymryd â'r astudiaeth dichonolrwydd er mwyn adnabod opsiynau i wella ansawdd yr aer a chyflawni cydymffurfiaeth â'r terfynau cyfreithiol o ran nitrogen deuocsid yng Nghaerdydd.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at y Weinidog y Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol;

- **Data Model DEFRA –** Yn ystod y cyfarfod esboniwyd bod modelu yr ymgymerwyd ag ef gan DEFRA yn dangos na fyddai Caerdydd yn cydymffurfio y tu hwnt i 2023 yn nhermau cyflawni terfyniadau cyfarwyddyd UE ar ansawdd yr aer; cafodd y toriadau posibl eu nodi ar hyd darnau o'r A48 a'r A4232. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd yr astudiaeth dichonolrwydd a'i rôl mewn gwirio'r canlyniadau ansawdd aer a fodelwyd gan DEFRA. a gofynnwyd am gadarnhad o'r canlyniadau DEFRA ar gyfer y ddau safle ynghyd â manylion o pan ymgymerwyd â'r

ymarfer, y setiau data a ddefnyddiwyd i efelychu llifoedd traffig a dadansoddiad o bob rhagdybiaeth arall a gymhwyswyd i'r cyfrifiad.

- **Astudiaeth Dichonolrwydd ac Amserlenni Caffael -** Roedd yr aelodau'n bryderus ynglŷn â'r amserlenni hynod dynn a roddir ar y Cyngor am gyflawni'r astudiaeth dichonolrwydd ac yn wir am adnabod cynllun i gyflawni cydymffurfiaeth o ran ansawdd yr aer mewn 'cyn lleied o amser â phosibl'. Roeddent yn teimlo bod cwblhau’r astudiaeth dichonolrwydd erbyn 30 Medi yn her sylweddol, yn enwedig wrth ystyried bod nifer o ddinasoedd tebyg wedi cymryd mwy na dwy flynedd i gwblhau’r un dasg. Codwyd pryderon bod yr amserlen byr o bosibl yn golygu bod yr ymarfer wedi’i gynnal yn frysiog gan beryglu'r canlyniad gorau i Gaerdydd, a bod caffael ymgynghorydd ansawdd aer yn ffurfiol heb ei ddechrau eto. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd na fyddai’r amserlen fer am gyflawni’r astudiaeth dichonolrwydd yn atal y Cyngor rhag cyflawni’r canlyniad gorau i Gaerdydd a bod yr amser a gymerwyd i gaffael ymgynghorydd ar ansawdd yr aer wedi’i adeiladu i mewn i’r ffenestr chwe mis ar gyfer cynnal yr astudiaeth dichonolrwydd yng Nghaerdydd.

- **Cydweithredu Rhanbarthol –** Croesawodd y Pwyllgor sylwadau'r Aelod Cabinet dros Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth mewn perthynas â gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos er mwyn adnabod yr atebion gorau ar gyfer ymdrin â heriau Caerdydd ynglŷn ag ansawdd aer ac wrth gyflawni'r gynulleidfa ehangaf posibl ar gyfer yr ymarfer ymgynghori sy'n cefnogi ‘Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân’.

- **Allyriadau/ Tanwyddau Cynaliadwy –** Croesawodd y Pwyllgor yr ymrwymiad a wnaed gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn nhermau datblygu defnydd tanwydd allyriadau isel/ cynaliadwy yng Nghaerdydd. Roeddent yn teimlo y byddai defnyddio cerbydau allyriadau isel a thanwydd cynaliadwy yn ffactor pwysig o ran gwella ansawdd aer Caerdydd. Gwnaethant annog y Cyngor i fod yn feiddgar yn ei ymagwedd ac ystyried yr holl atebion posibl sydd ar gael, er enghraifft, cerbydau a gaiff eu pweru gan drydan a hydrogen.

- **Cyflenwad Trydan –** Roedd nifer o'r Aelodau yn bryderus ynglŷn â'r sylw a wnaed am y posibiliad bod y cyflenwad o drydan sydd ar gael yng Nghaerdydd yn annigonol i fodloni'r galw yn y dyfodol a grëwyd gan dwf cerbydau trydan. Gofynasant am fanylion o'r cyflenwad trydan presennol sydd ar gael i Gaerdydd;

- **Cyllid –** Croesawodd y Pwyllgor y datganiad ariannol cadarnhaol a wnaed yn y llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd. Tawelwyd eu meddyliau i glywed y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Cyngor i fynd i'r afael i'r her a'u bod wedi cytuno i gefnogi'r cyllid ar gyfer yr astudiaeth dichonolrwydd a gweithredu'r cynllun i'w nodi er mwyn gwella  ansawdd aer Caerdydd.

- **Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd –** Croesawodd yr Aelodau 'Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd a'r ymarfer ymgynghori i gefnogi'r darn o waith.  Cytunasant ei fod wedi'i ysgrifennu'n dda a'i fod yn nodi nifer o syniadau pwysig sy'n hanfodol ar gyfer trawsnewid Caerdydd yn ddinas teithio cynaliadwy fodern.  Pwysleisiodd y Pwyllgor fod yr amserlenni ar gyfer cyflawni cydymffurfio o ran ansawdd yr aer yn fyr iawn a châi rhai o'r projectau mwy sylweddol (er enghraifft, y Metro) eu cyflawni y tu allan o'r cyfnod hwn. O ystyried yr amserlenni a'r adnoddau a oedd ar gael, pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cyflawni cynifer o'r mesurau tymor byr sydd o fewn rheolaeth y Cyngor cyn gynted â phosibl, er enghraifft, parhau i ganolbwyntio ar barthau 20 mya a mesurau cyfyngu ar barcio. Roeddent hefyd yn cydnabod yr angen i gwblhau unrhyw brosiectau seilwaith trafnidiaeth mawr y bwriedir eu cwblhau o fewn yr amserlen hon ar amser.

## Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd (17 Ebrill 2017)

Rhoddodd y cyfarfod ar 17 Ebrill 2018 gyfle i Aelodau graffu ar eitem o'r enw 'Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd' a rhoi sylwadau arni cyn i'r cynnig gael ei ystyried gan y Cabinet ar 19 Ebrill 2018. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd i'r cyfarfod ac fe'i cefnogwyd gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad i'w dderbyn gan y Cabinet oedd:

- Adrodd ar ganlyniad Astudiaeth Ddichonolrwydd Fanwl ar Rwydweithiau Gwres Ardal yng Nghaerdydd;
- I gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) ar gyfer y Rhwydwaith Gwres Caerdydd Arfaethedig (CHN) a argymhellir yn yr astudiaeth hon;
- Ceisio cael awdurdod i ddechrau gyda chamau nesaf y project gan gynnwys ceisiadau am grant a datblygu Achos Busnes Terfynol (FBC) i'w ystyried ymhellach gan y Cabinet;
- Arwyddo cais cyfalaf Cyngor yn y dyfodol am £4m o fenthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer y CHN, yn amodol ar gadarnhad cyllid arall a chymeradwyaeth i Achos Busnes Llawn.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr i'r Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynigion a geir yn yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd. Nododd Aelodau fod yr achos masnachol ar gyfer cam 1 y cynllun yn ariannol dynn yn seiliedig ar y dybiaeth mai dim ond cyflenwi gwres i ddarparwyr y sector cyhoeddus, gyda grantiau'r sector cyhoeddus yn hanfodol i wneud y cynllun yn hyfyw.

- Nododd Aelodau'r sleid 'Cerrig Milltir Allweddol' yn y cyflwyniad a oedd yn cynnwys rhestr hir o gamau y bydd angen eu cyflawni er mwyn cyflwyno'r

achos busnes terfynol a dyfarnu'r contract DBOM. Gofynnwyd a fyddai'r Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd y prosiect fel y gellid cynnwys craffu yn y dyfodol yn rhaglen waith y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

## Craffu cyn y Penderfyniad: Ariannu Cyfnewidfa Trafnidiaeth Bysiau Newydd (18 Gorffennaf 2017)

Roedd yr Aelodau yn cydnabod ei bod yn bwysig i drigolion, cymudwyr, ymwelwyr, cyflogwyr a busnesau gael Cyfnewidfa Drafnidiaeth Bws o ansawdd uchel cyn gynted â phosibl. Sicrhawyd bod amser y Pwyllgor ar gael i gynnal gwaith craffu rheolaidd ar gynigion gan fod y rhain yn cael eu cyflwyno drwy gydol 2017-18. Yn gyfan gwbl, cynhaliodd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ddau gyd-archwiliad ar wahân gyda Phwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant ar gynigion i gyflwyno gorsaf fysiau newydd Caerdydd. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar archwilio'r canlynol gyda'r cynghorydd Russell Goodway – Aelodau Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, ac uwch swyddogion: dulliau ariannu, y cydweddu â chynigion adfywio cyfagos ar gyfer y Sgwâr Canolog, Gorsaf Reilffordd Ganolog a’r Cei Canolig; rheoli risg; a’r gallu i gyflawni.

**Craffu cyn Gwneud Penderfyniad – Gorffennaf 2017-** Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Craffu'r Economi, i wneud gwaith craffu cyn penderfynu ar adroddiad i'r Cabinet ar yr orsaf fysus**.** Yn y cyfarfod, archwiliodd yr Aelodau faterion yn ymwneud â chyllido'r orsaf fysiau, gan gynnwys: tybiaethau ariannol; sut yr aethpwyd i'r afael â risgiau i'r cyngor a'u lliniaru; yr amserlen ar gyfer darparu'r orsaf fysiau; a'r argymhellion i'r Cabinet.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd i gyfleu cefnogaeth y Cydbwyllgor i'r argymhellion i'r Cabinet o ran dull sy'n cael ei yrru gan y farchnad i benderfynu ar y defnydd terfynol o'r lle uwchben yr orsaf fysus. Gofynnodd yr Aelodau iddynt gael gwybod am y cynnydd a wnaed gyda bid i Lywodraeth Cymru am gymorth i gwrdd ag ardaloedd technegol a gwelliannau i'r briffordd. Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at yr angen i sicrhau bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cymhwyso i sicrhau modelu ariannol cadarn ac ystyried cyngor cyfreithiol.

Ymatebodd y Cynghorydd Goodway i lythyr y Cadeirydd, gan ddweud y byddai'r weinyddiaeth yn 'ceisio sicrhau'r elw gorau posibl ar fuddsoddiad y Cyngor i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r cyfleuster gorau posibl ond gan ystyried hefyd yr amserlenni rydym angen i weithio iddo os ydym am ddarparu'r cyfleuster mewn cyfnod amser derbyniol'. Dywedodd y Cynghorydd Goodway hefyd y byddai'n sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn mabwysiadu dull cadarn i sicrhau diwydrwydd
dyladwy.

## Ailgylchu a Strategaeth Rheoli Gwastraff – 2018 i 2021 (15 Mai 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 15 Mai 2018 gyfle i Aelodau graffu ar eitem o'r enw ‘Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff’ a rhoi sylwadau arni cyn i'r cynnig gael ei ystyried gan y Cabinet ar 17 Mai 2018. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd i'r cyfarfod ac fe'i cefnogwyd gan swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd tynnu sylw at y broses a'r dull ymgynghori sy'n cael ei ddilyn gan y Cyngor wrth ddatblygu Strategaeth newydd Caerdydd ar gyfer Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu-2018 i 2021 ac i ystyried y cynigion canlynol:

- Ehangu darpariaeth biniau ag olwynion yn y ddinas;
- Newidiadau arfaethedig i orsafoedd addysg Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC);
- Cynllun peilot ar gyfer casglu gwastraff gwydr domestig ar gyfer ailgylchu, sydd ar wahân i gasgliadau gwastraff cartrefi eraill.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr i’r Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gofynnodd yr Aelodau am fanylion ar ôl i'r cynllun biniau gael ei ehangu ar ôl ymgynghori â'r cynghorwyr ward lleol yr effeithir arnynt.

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i dreialu rhai o'r newidiadau newydd sy'n deillio o Ddeddf newydd yr Amgylchedd i Gymru a fyddai'n effeithio ar y diwydiant gwastraff masnachol yng Nghymru.

- Croesawodd y Pwyllgor y syniad o ddatblygu ffatrïoedd prosesu lleol i ddelio â'r deunydd eildro a gynhyrchir yn rhanbarth De ddwyrain Cymru.

Roeddent o'r farn y byddai hyn yn helpu i wella 'ailgylchu dolen gaeedig' ac yn lliniaru effeithiau'r farchnad deunydd eildro sy'n amrywio'n gyson.

- Yn ystod y flwyddyn drefol, nodwyd bod trydedd Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi'i chynnig ar gyfer Gogledd Caerdydd a bod £3 miliwn wedi'i ddyrannu i'r gyllideb gyfalaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn ystod y tair blynedd nesaf. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod y cynnig yn dal i fodoli, cadarnhad o'r amserlen arfaethedig ar hyn o bryd a manylion unrhyw safleoedd posibl.

- Croesawodd yr Aelodau'r ymarfer ymgynghori i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth 'Ailgylchu a Rheoli Gwastraff-2018 i 2021'. Gofynnwyd am ddiweddariadau rheolaidd gan y Pwyllgor er mwyn iddynt allu cyfrannu at yr ymarfer lle roeddent yn teimlo bod hynny'n briodol.

## RHAGLEN WAITH A ARGYMHELLIR I'R DYFODOL

Mae'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwaith, lle y bydd cyfle i'r Aelodau ystyried eitemau i'w cynnwys ar y rhaglen waith, ac awgrymu unrhyw faterion newydd a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mae'r eitemau canlynol wedi'u nodi yn ystod 2017/18 fel eitemau addas i'w trafod yn ystod y broses o raglennu gwaith 2018/19:

- Cyfnewidfa Trafnidiaeth Bws Newydd
- Ymateb y Cabinet i Wella Ansawdd Aer Caerdydd
- Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd
- Cyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd – Perfformiad Chwarterol
- Cyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd – Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2019/20
- Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rheoleiddiol a Rennir 2018/19 a'r Cynllun Busnes 2019/20
- Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
- Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2019/20
- Fferm solar Lamby Way
- Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd
- Strategaeth Aer Glân Caerdydd
- Strategaeth Beicio Caerdydd
- Adroddiad Palmantau - Adran 106 Rhestrau Cynigion ar gyfer y Seilwaith Lleol
- Digideiddio Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
- Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff – 2018 i 2021

Gwasanaethau Craffu, Dinas a Sir Caerdydd,

Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

Ffôn: 029 2087 2953 E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
© 2018 Dinas a Sir Caerdydd